



Vale School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro and Governor Support Unit Cylchlythyr

Gair gan y Cadeirydd

Yr wythnos hon, trodd fy nau ŵyr ieuengaf yn dair oed gan ddechrau yn yr ysgol - y feithrinfa yn yr ysgol gynradd yn y Fro yr aeth eu mam a'i brodyr a'i chwiorydd iddi. Rwy'n teimlo'n hen iawn!

Ysgogodd hyn i mi siarad am y newidiadau rwyf wedi'u gweld ers imi ddod yn rhiant-lywodraethwr yn gyntaf yn yr ysgol honno dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Sut mae ysgolion wedi newid? Sut mae bod yn Llywodraethwr wedi newid?

Mae fel petai gan Gyrrff Llywodraethu fwy o gyfrifoldebau'r dyddiau hyn. Pan ddechreuais i, roedd hi'n fwy am fod yn gefnogwyr i'r ysgol yn hytrach na herio beth yr oedd y pennaeth am ei gyflawni i'w ysgol. Rwy ddim yn cofio unrhyw hyfforddiant penodol, chwaith. Roedden ni'n sefydlu pobl wrth eu gwaith. Ar ôl cwpl o gyfarfodydd, byddai'n cael ei dybio eich bod yn deall eich rôl.

Wrth gwrs, mae dal yn waith i Lywodraethwr ddod i ddigwyddadau'r ysgol a'i chynrychioli'n ôl yr angen, ond mae llawer mwy i'w wneud nawr, fel rheoli cyllideb o gannoedd o filoedd o bunnoedd, penodi staff a'u dwyn i gyfrif yn fframwaith diweddaraf Llywodraeth Cymru. Mae angen hyfforddiant arnom i wneud hyn y iawn mewn hinsawdd sy'n cynnwys yr holl reoliadau a chyfreithiau sy'n berthnasol i addysg a'r ddeddfwriaeth ehangach y mae'n

rheid i bob ysgol gadw ati ar iechyd a diogelwch, cyfle cyfartal a phopeth arall.

Rwy'n cofio meddwl yn naif y byddem ni'n trafod addysgu, manylion y cwricwlwm a'r pethau neis dwi'n eu cofio am fy ysgol fy hun. Soniodd neb pa mor hir y byddem yn ei dreulio ar materion pwysig fel adeiladau a thrafnidiaeth, diogelu, derbyniadau ac eithriadau, disgyblu a chwynion.

Rydym ni'n cael llawer mwy o wybodaeth nawr, gyda'r hyfforddiant cynhwysfawr a gawn gan Gymorth i Lywodraethwyr y Fro a'r Consortiwm. Gobeithio bod eich Cyrrff Llywodraethu wrthi'n sicrhau bod pawb wedi bodloni'r gofynion hyfforddiant gofynnol. Hoffwn eich annog i sicrhau y bydd rhywun yn mynd ar rai o'r cyrsiau llai ... difyr! Wyddech chi fyth ba bryd y gallai fod angen y wybodaeth a'r arbenigedd arnoch.

Dymunaf Nadolig Llawen a hapus i chi. Byddaf yn bwrw ati drwy fynd i'm drama'r geni gyntaf ers rhai blynedd. Rwy'n clywed y bydd yr efeilliaid yn chwarae rhan defaid!.

Dr Martin Price

Cadeirydd Cymdeithas

Llywodraethwyr Ysgolion y Fro ac Is-gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn

Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

Manylion cyswllt:

John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr

Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820

E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Janine Hoare

Cynorthwydd Clerigol

Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820

E-bost: JHoare@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA

a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr Dysgu a Sgiliau Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU

Rhifyn 47

Tymor y Hydref 2019

Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lansiwyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol



Mae'r Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf (FFAL) yn llinell gyngor i deuluoedd ym Mro Morgannwg a'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y rheiny sy'n cael cymorth atal ac ymyrryd yn gynnar trwy'r Cyngor. Rydym yn cael galwadau gan rieni, gofawyr a gweithwyr proffesiynol o ddewis eang o feysydd megis iechyd, addysg a gofal cymdeithasol.

Mae'r Llinell Gyngor yn dîm medrus sy'n gwrandao a nodi cryfderau ac anghenion teuluoedd. Rydym yn cynnig mynediad at wasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar, gyda'r nod o leihau'r risg o ddatblygu anghenion mwy cymhleth y mae angen ymyrraeth statudol ar eu cyfer. Yn achlysurol, byddai hyn yn cael ei wneud trwy gyngor dros y ffôn, ac anfon adnoddau digidol a ffisegol pan nad ystyrir bod yr angen am wasanaeth pellach yn flaenoriaeth.

Yn gyffredin, mae angen gwasanaeth atal, ac ar gyfer hyn bydd yr Ymgynghorydd yn rhoi argymhellion addysgedig i wasanaethau lleol ac wedyn llenwi'r atgyfeiriad gyda chymorth y galwr. Bydd hyn yn golygu mai dim ond un rhif fydd ei angen i deuluoedd ganfod y gwasanaethau lleol sydd orau iddynt ar yr adeg honno. Mae hyn hefyd yn cynnig system brysbennu effeithiol i gael y gwasanaethau iawn ar waith yn syth, ac yn lleihau'r llwyth gwaith ar gyfer y gwasanaethau gan nad oes angen iddynt gymryd cymaint o ymholiadau trafferthus sy'n gofyn a yw gwasanaeth penodol y gwasanaeth iawn ar gyfer unigolyn penodol. Mae'r Llinell Gyngor yn bwynt mynediad unigol ar gyfer atgyfeirio i Wasanaeth Rhianta y Fro, Gwasanaeth Llesiant Ieuenctid y Fro, Allgymorth a Mwy Dechrau'n Deg ac Asesiadau Gofawyr Ifanc. Mae atgyfeiriadau hefyd yn cael eu gwneud yn aml at Teuluoedd yn Cyflawni Newid Ynghyd (FACT) - Tîm o Amgylch y Teulu y Fro - y Gwasanaeth Llesiant Emosiynol, Llamau, Barnardos, Lleodedd â Chymorth, Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, ac os bydd anghenion diogelu, at Wasanaethau Plant.

Mae'r tîm bellach yn cynnwys 5 Ymgynghorydd (gan gynnwys Uwch Ymgynghorydd, sydd, rhyngddynt, â mwy na 75 o flynyddoedd o brofiad o weithio yn y maes gwaith teulu ac ieuenctid. Mae Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf yn wasanaeth rhianta yn y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD), ac ynghyd mae'r ddau dîm yn rhoi'r cymorth gofynnol i bob cyngor sy'n cynnig Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Er bod y GGiD yn rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol a gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd, bydd FFAL yn rhoi cyngor wedi'i deilwra, arweiniad a mynediad at wasanaethau proffesiynol.

Hefyd, mae'r Llinell Gyngor yn cyflawni gwaith allgymorth, yn mynychu clinigau wythnosol yng Nghanolfan Blant Llandochau, sesiynau gwybodaeth ar gyfer teuluoedd sydd wedi'u hatgyfeirio at y Tîm Niwroddatblygu yng Nghanolfan Blant Dewi Sant, sesiynau gwybodaeth ADHD Barnardos, digwyddiadau i deuluoedd gan asiantaethau partner, a digwyddiadau rhwydweithio hyrwyddol. Rydym hefyd yn defnyddio ymweliadau cartref yn ôl yr angen i helpu teulu lle bod rhwystrau at ddarparu'r gwasanaeth gorau, er enghraifft, rhwystrau llythrennedd a chyfathrebu, rhwystrau ieithyddol, anghenion dysgu ychwanegol, neu atgyfeiriadau y mae angen llofnod ar eu cyfer.

Mewn perthynas ag ysgolion, mae Llinell Gymorth Teuluoedd yn Gyntaf yn ased gwerthfawr o ran cynnal amgylchedd sy'n gadarnhaol yn gyfannol i blant. Mae Athrawon, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol a Chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gweithio'n ddiflino i dywys myfyrwyr i ddod yn oedolion rhagweithiol a hapus a gall gwasanaethau atal roi cymorth i deuluoedd y tu allan i waliau'r ysgol. Mae'r adnoddau ychwanegol hyn yn hanfodol i lesiant plentyn a theulu, ac mae'r Llinell Gyngor ar waith i dywys teuluoedd yn glir at y gwasanaeth mwyaf gwerthfawr.

Gellir defnyddio Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf cymaint ag sydd angen ac mae ar gael trwy ffonio **0800 0327 322** yn ystod yr wythnos o 9am tan 12pm ac o 1pm tan 4:30pm neu drwy e-bostio familiesfirstadvice@valeofglamorgan.gov.uk

Swyddog Diogelu Newydd Gyngor Bro Morgannwg

Annwyl Bawb,

Fy enw i yw Annemarie McKay a fi yw'r Swyddog Addysg diogelu newydd. Wedi 18 mlynedd o brofiad yn gweithio ym maes amddiffyn a diogelu plant, rwyf wedi gweithio yn Gwasanaethau Plant Cyngor Caerdydd fel Gweithiwr Cymdeithasol a rheolwr Tîm, wedi bod yn Swyddog Adolygu Annibynnol, wedi rheoli tîm diogelu yng Nghaerffili ac yn fwy diweddar wedi bod yn Gynghorydd Llys Teuluol yn Cafcass, gan gynrychioli plant a phobl ifanc ym maes y Llys Teulu. Mae fy ngyrfa wedi bod yn hynod heriol ond yn brofiad cyfoethog ac roeddwn i am ddod a hyn i'r rôl ddiogelu addysg.

Byddaf wedi cwrdd â rhai ohonoch eisoes ac i'r rheiny nad wyf wedi cwrdd â nhw rwy'n edrych ymlaen i gwrdd â chi yn y dyfodol agos.

Cofion

Annemarie

Cymorth Llais y Disgybl gan Wasanaeth Ieuencid y Fro

Hwylusodd Gwasanaeth Ieuencid y Fro hyfforddiant llais i ddisgyblion ar gyfer athrawon cysylltu cyngor ysgol mewn ysgolion uwchradd ar 25 Medi. Mae nifer o ysgolion uwchradd yn ddiweddar wedi penodi athrawon newydd i rôl cyswllt cyngor ysgol. Roedd yn gyfle gwych i gwrdd â'r athrawon newydd rheiny ac yn gyfle i annog ysgolion i adeiladu ar y dolenni sy'n bod eisoes. Roedd presenoldeb da yn yr hyfforddiant ac fe ddarparodd yr athrawon yr adborth canlynol:

"Gwybodaeth ac adnoddau ardderchog a pherthnasol."

"Hyfforddiant gwych i un sydd mor newydd i'r swydd."

"Diolch am gynnal y sesiwn hyfforddi yma."

2020 Diweddariadau Diweddariad Addysg a Sesiwn Briffio am eich Dyddiad

DYDDIAD	LLEOLIAD	AMSER
Dydd Mercher 1 Gorffennaf 2020	Ystafell Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri	6.00 - 7.30pm

Nadolig Llawn

a

Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth yr

Uned Cefnogi Llywodraethwyr



Seremoni Wobrwyo Deall Anabledd



Mewn teyrnged arbennig i'w gyrfa 42 mlynedd mae Mrs Adrina Jones, athrawes o Ysgol Gynradd Illtud Sant, yn dathlu ennill y Wobr Deall Anabledd a drefnwyd gan y Ffederasiwn Rhieni.

Cafodd Adriana ei henwebu gan Gadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol oherwydd ei hymdrechion arbennig ar ran plant ag anghenion ychwanegol. Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo ar 4 Tachwedd 2019 yng Nghaerdydd.

Amlygodd y beirniaid ymrwymiad arbennig Adrina i'w disgyblion. Mae hi wastad wedi sicrhau bod ei disgyblion yn cael y gorau o'u haddysg a wastad wedi brwydro i sicrhau eu bod yn cael yr holl gymorth gan y Fro y mae ganddynt hawl iddo.

Ystyried Maethu?

Ystyriwch Gyngor Bro Morgannwg!

Mae llawer o'n Gofalwyr Maeth yn gweithio yn y Sector Cyhoeddus. Mae maethu yn rhoi cyfle unigryw iddynt ddefnyddio eu sgiliau wrth ennill incwm ychwanegol cystadleuol.

Fel Llywodraethwr ysgol, rydych eisoed yn meddu ar nifer o rinweddau a phriodweddau sydd eu hangen i fod yn Ofalwr Maeth gwych. Rydych yn ymrwymedig i roi anghenion a hawliau plant gyntaf ac mae gennych chi allu a ffyrdd o weithio sy'n graff a mentrus – rhywbeth y byddwch yn ei roi ar waith wrth faethu plant ym Mro Morgannwg. Rydych wedi arfer â gweithio'n rhan o dîm amlddisgyblaeth, rhywbeth a fydd yn rhoi mantais i chi wrth gynrychioli anghenion eich plentyn maeth mewn cyfarfodydd gofal cymdeithasol. Fel Llywodraethwr, rydych chi wrth galon y ffordd y mae ysgolion yn gweithredu a byddwn ni'n hynod falch pe byddech yn dod â'ch angerdd amlwg dros les pobl ifanc Bro Morgannwg, a'i defnyddio fel aelod dilys o'n tîm maethu.

Mae maethu gyda Chyngor y Fro yn gyfle gwych i gyfrannu at les a dyfodol plant a phobl ifanc Bro Morgannwg, gan ddatblygu eich sgiliau ac ennill incwm cystadleuol ar yr un pryd.

Mae ein Gofalwyr Maeth yn rhan annatod o'n tîm sydd wedi ymrwymo i helpu trawsffurfio bywydau plant a phobl ifanc ledled Bro Morgannwg Mae ein Gofalwyr Maeth yn aros ochr yn ochr â'n timau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a'n timau Rheng Flaen, gan gynnwys cyfathrebu amhrisiadwy ar gyfer taith cyfan pob plentyn sy'n dod i'n gofal. I gydnabod hyn, rydym yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu gwych, gan gynnwys cymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol. Rydym hefyd yn cynnig lwfansau sgiliau cystadleuol i'n Gofalwyr Maeth a chyfnodau adfer lle y gofelir am y plant gan ofalwyr seibiant cymwysedig. Ar gyfer y rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan Gyngor Bro Morgannwg, byddwch hefyd yn elwa ar hyd at 5 niwrnod ychwanegol o wyliau ar gyfer gweithgareddau maethu er mwyn eich cefnogi yn y rôl.

Mae gan adran Faethu y Fro garfan gyfnewidiol o blant yn ein gofal ac yn dilyn hynny mae gennym alw uchel ar gyfer y gofalyr mwyaf addas. Os ydych yn credu y gallwch ymuno â'n cenhadaeth i roi cyfle i bob plentyn yn y Fro i gyrraedd ei botensial neu os hoffech ganfod rhagor, cysylltwch ag Amy yn ein tîm maethu. Gallwch wneud hyn drwy:

Ffôn: Ffoniwch nhw ar **029 2087 3797** o ddydd Llun i ddydd Iau, 8:30am-5pm a dydd Gwener, 8:30am tan 4.30 pm

Gwefan: Ewch i

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/social_care/children_and_young_people/fostering/fostering.aspx



Tŷ Ystumllwynarth/Oystermouth House
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way
Abertawe/Swansea SA7 9FS
01792 765600

comisiynyddplant.cymru
childrenscommissioner.wales

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

Annwyl Gydweithwyr,

Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddais Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn Plant Cymru rhag effaith tldi. Roedd yr adroddiad hwn yn cyflwyno barn a phrofiadau plant, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ynghylch tldi plant yng Nghymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol ac ysgolion. Un thema arwyddocaol oedd yn codi o'r gwaith hwn oedd cost neu gostau cysylltiedig â'r diwrnod ysgol, ac fel Comisiynydd, rwy'n teimlo bod rhai pethau pendant y gall ysgolion ar draws y wlad eu rhoi ar waith i ysgafnhau'r baich ariannol ar rai teuluoedd.

Mae'r adroddiad yn amlygu rôl hanfodol staff addysg a Chyrff Llywodraethu wrth greu newid yn eu hysgolion. Rwy'n cydnabod bod ysgolion yn wynebu llu o alwadau ac o dan bwysau aruthrol ar hyn o bryd, felly er mwyn hwyluso rhai o'r newidiadau hyn, mae fy nhîm wedi datblygu adnoddau ar gyfer ysgolion. Mae tair elfen i'r cais sydd gen i ar eich cyfer chi, fel Cyrff Llywodraethu:

- annog defnydd o'n hadnodd Gwyrdd-droi yn eich ysgol, er mwyn creu cynlluniau ailddefnyddio gwisg ysgol dan arweiniad disgyblion yn eich ysgol chi;
- annog defnydd o'n hadnodd 'Cofia Ceri'; archwiliad o gostau ysgol sy'n cael ei arwain gan y disgyblion, a chefnogi cyflwyno'r cynllun a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r gwaith hwn;
- dewis "pencampwr Ceri" ar gyfer eich ysgol, yn ôl y manylion yn yr adnoddau. Gallai hynny fod yn rhywun ar gorff llywodraethu'r ysgol, neu'n aelod o staff yr ysgol, sy'n arwain y gwaith o ddadansoddi'r costau i ddisgyblion yn yr ysgol, er mwyn llenwi 'calendr costau' ar hyd y flwyddyn, a chreu cynllun gweithredu fydd yn lleihau'r baich ariannol ar deuluoedd.

Mae'r rhain yn dri argymhelliad hollbwysig o'r adroddiad, ac yn fy marn i byddan nhw'n cyflawni newidiadau amlwg ym mywydau disgyblion. Os hoffech chi ddarllen yr adroddiad llawn a'r argymhellion mae i'w weld yma.

Mae dros 600 o ysgolion cynradd a dau draean o ysgolion uwchradd wedi ymuno â'm cynlluniau Llysgenhaddon. Mae'r ysgolion hynny eisoes wedi cael y gwaith o weithredu'r argymhellion fel 'tasg' arbennig ar gyfer y tymor yma. Os yw eich ysgol yn aelod o'r cynllun, dylai fod gennych chi athro cyswllt sy'n cydlyn hyn yn eich ysgol a dau ddisgybl sydd wedi'u penodi'n Llysgenhaddon. Os nad ydych eisoes wedi ymuno, gallwch ddod yn rhan o'r cynllun am ddim, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yma. Sylwch nad oes rhaid ymuno â'm cynlluniau i weithredu'r argymhellion hyn, ond bydden ni'n eich annog i wneud hynny oherwydd ein bod ni'n cynhyrchu cyfoeth o adnoddau dwyieithog hygyrch ar gyfer athrawon a disgyblion.

Byddwn i'n ddiolchgar iawn petai modd i chi rannu cynnwys y llythyr yma gydag aelodau eraill o'r Corff Llywodraethu, gan gynnwys y pennaeth, a byddwn yn gwerthfawrogi adborth ar sut mae eich ysgol wedi gweithredu'r argymhellion hyn neu sut mae'n bwriadu gwneud hynny. Gallwch chi gyflwyno adborth ar-lein trwy ddilyn y dolenni yma: adborth ar 'Gwydd-droi – ailddefnyddio gwisg ysgol', adborth archwilio 'Cofia Ceri'. Hefyd mae codau QR yn yr adnoddau fydd yn mynd â chi at y ffurflenni hyn.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am yr adnoddau, neu os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag Emma Curtis (Ymgynghorydd Polisi) sy'n arwain y gwaith hwn - emma.curtis@complantcymru.org.uk neu **01792 765600**.

Yn gywir

Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymrun

Diweddariad ar Drefniadau Mynediad i Blant Oed Dosbarth Derbyn 2019-20

Cyflwyniad

Ar ôl ymgynghoriad i gyflwyno cynllun peilot ar drefniadau derbyn i ysgolion cydlynol ar gyfer grŵp Dosbarth Derbyn y flwyddyn academaidd 2019-20, cytunodd cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansannor, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint Andras, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes i gymryd rhan yn y cynllun.

Yn ogystal ag Ysgolion cymunedol Bro Morgannwg, roedd rhieni hefyd yn gallu ymgeisio am leoedd yn yr ysgolion hyn drwy ddefnyddio'r gwasanaeth ymgeisio ar-lein fel y nodir uchod.

Cefndir/Methodoleg

Penderfynwyd ar gydlynw meini prawf derbyn a chwestiynau ar ffurflenni cais ac ati ar y cyd â'r holl ysgolion dan arweiniad cynrychiolydd yr esgobaeth, Andrew Ricketts.

Porthol Derbyn – Ychwanegwyd ysgolion fel dewis i rieni ar y porthol cais ar-lein, a oedd hefyd yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth o ran y broses gwneud cais ac yn benodol y meini prawf i ysgolion a dolenni i wefannau ysgolion ac ati.

Cyswllt/Argaeledd – Roedd yn rhwydd i rieni a staff ysgol gysylltu â'r Tîm Derbyn i Ysgolion, a oedd wrth law i roi unrhyw gyngor neu ddatrysiadau ar unrhyw broblemau posibl.

Canfyddiadau/canlyniadau – Roedd y cynllun peilot yn llwyddiannus ac fe alluogodd rhieni i gael dewisiadau ychwanegol a datrys y mater dyrannu amryw leoedd i rieni drwy awdurdodau derbyn gwahanol a chreu proses fwy tryloyw i ysgolion a'r awdurdod lleol. Cafwyd adborth gan yr ysgolion a'r rhieni a gymerodd ran ar sut mae modd gwella'r broses ac rydym yn awyddus i wella'r cymorth sydd ar gael lle bo hynny'n bosibl.

Mae mwy o dryloywder i ysgolion, rhieni a'r awdurdod wedi lleihau nifer yr apeliadau yn yr ardaloedd lle cyflwynwyd y cynllun peilot ac wedi arwain at ddsbarthiad tecach o leoedd ysgol.

Digwyddiadau Cenhadon Gwych

Trefnodd Project Cenhadon Hawliau Gwasanaeth Ieuenctid y Fro ddau ddigwyddiad Cenhadon Gwych y tymor hwn i godi ymwybyddiaeth o Hawliau Plant a Phobl Ifanc a Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae Cenhadon Gwych yn gynllun Comisiynydd Plant Cymru sydd â'r nod o hyrwyddo hawliau plant mewn ysgolion cynradd. Cynhaliwyd y ddau ddigwyddiad ar 11 Hydref 2019 yng Nghanolfan CF61, Llanilltud Fawr a 24 Hydref yn Neuadd Hebron, Dinas Powys. Daeth deg ysgol ar hugain o bob rhan o'r Fro i'r digwyddiadau. Eleni hefyd yw 30 mlwyddiant yr UNCRC, gobeithio y bydd nifer o ysgolion ar draws y Fro'n nodi hyn..



Gwahoddiad i'r Arolwg

Annwyl Lywodraethwr Ysgol,

Rwy'n eich gwahodd yn wresog i gymryd rhan mewn arolwg a ddyluniwyd i gael gwell dealltwriaeth o'r gefnogaeth y byddai llywodraethwyr ysgolion yn ei gwerthfawrogi. Mae'r arolwg hefyd yn rhoi cyfle i gynhyrchu astudiaethau achos defnyddiol a fydd ar gael fel adnodd i lywodraethwyr ledled Cymru. Bydd yn cymryd rhwng 15 - 30 munud i'w gwblhau.

https://socsi.qualtrics.com/jfe/form/SV_4VgrNq2bLq2IsHX

Mae'r arolwg yn ffurfio rhan o brosiect sy'n cael ei ariannu gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac mae'n cael ei gynnal trwy'r Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD). Mae mwy o fanylion am yr arolwg i'w cael ynddo, ynghyd â gwybodaeth am ddefnyddio data.

https://socsi.qualtrics.com/jfe/form/SV_4VgrNq2bLq2IsHX

Mae ein nod o fudd uniongyrchol i lywodraethwyr ysgol ac mae cyfranogiad pawb yn werthfawr, p'un a ydych yn llywodraethwr newydd neu'n un profiadol iawn. A fyddech cystal â rhannu'r dolenni gyda'ch cydweithwyr yn y corff llywodraethu. Diolch yn fawr ymlaen llaw.

Cofion cynnes,
Dr Nigel Newton

WISERD, Prifysgol Caerdydd

Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2018-20

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

Rhif	Teitl	Blaenly thyren	Cyfenw	Ysgol
1	Mr	R	Bailey	Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Llanbedr y Fro
2	Dr	C	Brown	Llantwit Major Comprehensive
3	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Gwenfô
4	Mrs	M	Gibbs	Ysgol Gynradd Romilly
5	Mr	A	Hennessey	Ysgol Gynradd Oak Field ac Ysgol Sant Baruc
6	Mrs	S	Hodges	Ysgol Sant Baruc
7	Mrs	A	Males	Ysgol Gyfun Sant Cyres
8	Mrs	A	Malkin	Ysgol Gynradd Gladstone
9	Dr	M	Price	Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant
10	Mr	R	Smith	Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes yr Eglwys yng Nghymru
11	Mr	D	Treharne	Ysgol Gynradd Llansannwyr yr Eglwys yng Nghymru
12	Mrs	T	Vaughan-Taylor	Ysgol Gyfun y Bont-Faen
13	Mrs	E	Wapner-Carter	Ysgol y Deri
14	Mrs	S	Williams	Ysgol Gynradd yr Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru
15	Cllr Mr	M	Wilson	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria
PGR = Cynrychiolwyr Rhieni Llywodraethwyr				
PGR - Prim	Mrs	J	Lynch-Wilson	Ysgol Gynradd St. Athan
PGR - Sec	Vacant			